Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref nos Fercher, 17 Medi 2025, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. Walker (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Chamberlain-Jones, K. R. Jones, J. Kenney, A. J. Rutherford a S. Feeney.

Mrs H. J. Mead – Clerc y Dref
Mrs T. A. Jones – Dirprwy Glerc

**9. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a B. Mellor.

**10. DATGAN BUDDIANNAU**

Gofynnodd Clerc y Dref a oedd gan yr aelodau unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu i'w ddatgan yng nghyswllt unrhyw fusnes i'r ystyried ar yr agenda.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.*

**11. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd i osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| i. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 13 Rhodfa'r Llyn, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1HY<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs J. Butterfield YH MBE<br>A. R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0374/HH |

| | |
|---|---|
| | **DISGRIFIAD**: Adeiladu ardal decin pren yn cynnwys grisiau a chanllawiau yn yr ardd gefn<br><br>**YMGEISYDD:** Christine Hopkins<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| ii. | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 52 - 54 Ffordd y Cilgant, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1PB<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. L. McAlpine<br>J. Kenney<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2025/0380/PF<br><br>**DISGRIFIAD**: Newid defnydd rhan o adeilad o swyddfa (Defnydd Dosbarth A2) i Dŷ Amlfeddiannaeth (Defnydd Dosbarth C4)<br><br>**YMGEISYDD:** Mr S Sohail (Sohail Properties Holding Ltd.)<br><br>***PENDERFYNIAD****: Mae'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu'r cais a ystyrir ei fod yn groes i Bolisi BSC7 y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig:*<br><br>*"Polisi BSC7 – ni chaniateir cynigion ar gyfer tai amlfeddiannaeth a fflatiau hunangynhwysol a fyddai'n arwain at greu tai amlfeddiannaeth neu fflatiau hunangynhwysol.* |

## 12. CEISIADAU GWYLIAU – CYFNOD GWYLIAU MIS AWST

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y rhestr ceisiadau y penderfynwyd arnynt gan y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Aelodau Ward perthnasol yn ystod cyfnod gwyliau mis Awst, er gwybodaeth i'r aelodau (dosbarthwyd copi).

## 13. YMGYNGHORI YNGHYLCH CAIS WEDI'I AILGYFLWYNO – CYNIGION DATBLYGU YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA

Hysbysodd y Cadeirydd y derbyniwyd yr uchod yn ystod cyfnod gwyliau mis Awst, a chyfeiriodd at yr ymateb a anfonwyd, fel y cytunwyd gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, er gwybodaeth i'r aelodau (dosbarthwyd copi).

## 14. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafodd, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………………......